

PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU YR AMGYLCHEDD
11 CHWEFROR 2020

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Amgylchedd Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, ddydd Mawrth, 11 Chwefror 2020.

YN BRESENNOL: Cynghorydd Patrick Heesom (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr: Mike Allport, Chris Dolphin, David Evans, George Hardcastle, Ray Hughes, Joe Johnson, Vicky Perfect, Paul Shotton ac Owen Thomas

DIRPRWYON: Y Cynghorwyr: Paul Johnson (ar ran Cindy Hinds), Mike Peers (ar ran Veronica Gay) a David Wisinger (ar ran Andy Dunbobbin)

YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorydd Sean Bibby

HEFYD YN BRESENNOL: Y Cynghorwyr Marion Bateman a Haydn Bateman

CYFRANWYR: Y Cynghorydd Carolyn Thomas, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Strydwedd a Chefn Gwlad a Phrif Swyddog (Strydwedd a Chludiant)

Y Cynghorydd Chris Bithell, Aelod Cabinet dros Gynllunio a Gwarchod y Cyhoedd; y Cynghorydd Derek Butler, Aelod Cabinet dros Ddatblygiad Economaidd; Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi); Rheolwr Strategaeth Priffyrdd ac Uwch Reolwr Technegol a Pherfformiad ar gyfer eitem 3 ar yr Agenda - Strategaeth Cludiant Integredig Cyngor Sir y Fflint

Rheolwr Rhwydwaith Priffyrdd ar gyfer eitem 4 ar yr Agenda - Adennill Costau yn dilyn difrod i'r Rhwydwaith Priffyrdd

Rheolwr Darparu Gwasanaeth ar gyfer eitem 5 ar yr Agenda - Storfa Depo Alltami

HEFYD YN BRESENNOL: Hwylusydd Trosolwg a Chraffu yr Amgylchedd a Gofal Cymdeithasol ac Iechyd a Hwylusydd Trosolwg a Chraffu Addysg a Chymuned

62. DATGAN CYSYLLTIAD

Y Cynghorydd Mike Peers yn datgan cysylltiad yn eitem 3 ar yr Agenda - Strategaeth Cludiant Integredig Cyngor Sir y Fflint, fel Cadeirydd Llywodraethwyr yn Ysgol Gynradd Mountain Lane.

Y Cynghorydd Paul Shotton yn datgan cysylltiad yn eitem 3 ar yr Agenda - Strategaeth Cludiant Integredig Cyngor Sir y Fflint, fel Llywodraethwr Ysgol yn Ysgol Bryn Deva ac Ysgol Uwchradd Cei Connah.

63. STRATEGAETH TRAFNIDIAETH INTEGREDIG SIR Y FFLINT

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant) adroddiad i ddiweddarau'r Pwyllgor ar y gwaith sy'n cael ei wneud i ddatblygu Strategaeth Cludiant Integredig Sir y Fflint a gyflwynwyd diwethaf i'r Cabinet yn 2018.

Rhoddodd y Prif Swyddog a'r Rheolwr Strategaeth Priffyrdd gyflwyniad ar y cyd oedd yn delio â'r meysydd canlynol:-

- Hierarchaeth Cludiant yng Nghymru;
- Nodau ac Amcanion
- Ateb Cwbl Integredig;
- Blaenoriaethau Allweddol Sir y Fflint; a'r
- Allwedd i Lwyddiant

Diolchodd y Cyngorydd Paul Shotton i'r swyddogion am eu gwaith yn llunio'r Strategaeth Cludiant Integredig, dyma sylw a gefnogwyd gan nifer o Aelodau'r Pwyllgor. Cafwyd manylion o'r mentrau a gyflwynwyd yng Nghei Connah, yn cynnwys y groesfan newydd i gerddwyr ar Ffordd yr Wyddgrug a'r gwelliannau i Wasanaeth Gwennol Glannau Dyfrdwy a gafodd eu croesawu. Gofynnodd am sicrwydd ynghylch amllder a diogelwch y rhwydwaith bws wrth symud ymlaen i alluogi pobl i barhau i gael mynediad i gyflogaeth ym Mharc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy.

Wrth ymateb i'w gwestiwn fe groesawodd y Cyngorydd Dave Wisinger y wybodaeth a ddarparodd y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet ar gyflwyno llwybr beicio o'r Wyddgrug i Airbus a fyddai'n cysylltu Parc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy ac yn cynnwys Queensferry a Sandycroft.

Croesawodd y Cyngorydd Chris Dolphin y gwaith sy'n cael ei wneud i ddarparu gwasanaethau bws mewn ardaloedd gwledig. Mynegodd ei bryderon ynghylch Trafnidiaeth Cymru yn lleihau amseroedd ac amllder gwasanaethau rheilffyrdd yng Ngogledd Cymru ond fe groesawodd y sylwadau gan y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet fod adborth a chynrychiolaeth ar y pryderon hyn yn cael eu gwneud gan y Cyngor. Fe groesawodd y mesurau diogelwch arfaethedig ar gyfer Well Hill, Treffynnon. Mewn ymateb i'w gais ar ddiweddarau'r amserlenni bysiau mewn gorsafoedd bysiau ar draws Sir y Fflint fe sicrhaodd y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet ei fod yn y broses o gael ei ddiweddarau.

Gofynnodd y Cyngorydd David Evans am eglurhad ar y union leoliad i bobl gael mynediad i Wasanaeth Gwennol Glannau Dyfrdwy. Eglurodd y Prif Swyddog fod gwaith yn cael ei wneud er mwyn sicrhau man codi/gollwng ar gyfer Gwasanaeth Gwennol Glannau Dyfrdwy ar Ffordd Tata Steel.

Dywedodd y Cyngorydd Owen Thomas y byddai wedi hoffi gweld cyfeiriad at drydaneiddio'r llinell rheilffordd yn y Strategaeth gan dynnu sylw hefyd at y gwyradau rheolaidd yn eu lle oherwydd achosion ar yr A55 a oedd yn ei farn ef yn cael effaith andwyol ar rwydwaith y Sir. Dywedodd y Prif Swyddog fod Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn edrych ar fannau cyfyng yn dilyn gwyradau o'r A55 ond fe sicrhaodd yr Aelodau fod y Cyngor yn edrych am gyllid ychwanegol ar gyfer gwaith gwelliannau o ganlyniad i ddefnydd ychwanegol o rwydwaith y Sir.

Mynegodd y Cynghorydd George Hardcastle ei bryderon am y cynigion i gyflwyno llwybr beics ar hyd Aston Hill a'r diffyg ymgynghoriad a fu gydag Aelodau Lleol. Roedd ganddo bryderon diogelwch os oedd y llwybr beicio ddim yn cynnwys rhwystrau diogelwch. Cytunodd y Prif Swyddog i drafod hyn gyda'r Cynghorydd Hardcastle ar ôl y cyfarfod.

Trafododd y Cynghorydd Mike Peers nodau ac amcanion y Strategaeth ond teimlai nad oedd y Cyngor wedi'u cyflawni eto. Gofynnodd bod adroddiad ar wasanaethau ychwanegol ar hyd y ffin yn cael ei gyflwyno mewn cyfarfod o'r Pwyllgor yn y dyfodol yn dilyn pryderon blaenorol y Cynghorydd Dave Evans fod gwasanaethau ychwanegol yn gallu arwain at leihad mewn gorsafod stopio. Fe groesawodd y mesurau diogelwch a gyflwynwyd yn Ysgol Gynradd Mountain Lane ond fe dynnodd sylw at y pryderon nad oedden nhw'n cael eu gorfodi a gofynnodd p'un ai y dylid ystyried cyfnod o beilota camerâu yn y lleoliad. Fe gwestiynodd y ffi o £10 hefyd ar gyfer defnyddio Gwasanaeth Cludiant yn Seiliedig ar Alw ac roedd yn bryderus fod hynny'n anfanteisiol i breswylwyr mewn ardaloedd gwledig. Manylodd y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet y gwaith sy'n cael ei wneud gan swyddogion i gwrdd â nodau ag amcanion y Strategaeth, yn cynnwys gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a gwella cysylltiadau cludiant i Ysbyty Maelor Wrecsam. Fe eglurodd hefyd yn ystod ymgynghoriad fod preswylwyr wedi cytuno â'r ffi o £10 gan fod y gwasanaeth yn ddibynnol ar argaeledd cyllid grant i'w wneud yn hyfyw i barhau ar gyfer y dyfodol. Dywedodd y Prif Swyddog mai'r gobaith oedd drwy gynnal gwybodaeth ar y preswylwyr yn ystod y Gwasanaeth Cludiant yn Seiliedig ar Alw, y byddai'n bosib yn y dyfodol i gysylltu â nhw pan fyddai digwyddiadau yn cael eu trefnu yn eu hardal, er mwyn gallu darparu nhw â chludiant i'r digwyddiadau hyn.

Mewn ymateb i sylwadau a wnaed gan y Cynghorydd Peers ar nifer y mentrau wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad yng Nglannau Dyfrdwy, dyma'r Aelod Cabinet ar gyfer Datblygiad Economaidd yn tynnu sylw at y lefel o gyllid a oedd wedi cael ei dynnu o'r gwasanaeth dros y 10 mlynedd diwethaf. Cynghorodd nad oedd llwybr bysiau i Barc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy ond dywedodd am y pwysigrwydd o sicrhau fod y 9,900 o weithwyr yn cael eu cyflogi gan y Parc yn gallu cael mynediad i gyflogaeth trwy gludiant cyhoeddus.

Mynegodd y Cynghorydd Ray Hughes bryderon am gael gwared ar lwybr bysiau o fewn ei ward a gofynnodd os oedd bwriad rhoi i breswylwyr i gael mynediad i fwynderau. Eglurodd y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet bod y Gwasanaeth Cludiant yn Seiliedig ar Alw yn helpu preswylwyr ac yn rhoi manylion o'i lansiad cynharach yn y dydd. Cytunwyd i ddsbarthu gwybodaeth ar y Gwasanaeth hwn i'r holl Aelodau ar ôl y cyfarfod.

Er bod y Cynghorydd Paul Johnson yn croesawu'r adroddiad fe ddywedodd bod angen am brisiau siwrnai wedi'u rheoleiddio, a thynnodd sylw at gost uchel trên o Fflint i Lundain. Dywedodd y Prif Swyddog bod prisiau siwrnai ar gyfer y trên allan o ddwylo'r Cyngor ond pe bai'r gwasanaeth yn ddibynadwy yna byddai mwy o obaith i bobl ei ddefnyddio ac felly byddai'r prisiau yn lleihau yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD:

- (a) I nodi bod hierarchaeth strategaeth cludiant yng Nghymru a'r berthynas rhwng polisi cenedlaethol a lleol yn helpu i adnabod yr ymyraethau uniongyrchol sydd eu hangen i gyflawni gwelliannau cludiant allweddol; a
- (b) Nodi cynnydd y Cyngor ar yr ymyraethau allweddol wedi'u diffinio yn y Cydgynllun Cludiant Lleol Gogledd Cymru bresennol.

64. ADENNILL COSTAU YN DILYN DIFROD I'R RHWYDWAITH PRIFFYRDD

Cyflwynodd y Rheolwr Rhwydwaith Priffyrdd adroddiad i roi gwybod i'r Pwyllgor o'r cynnydd ynghlwm â'r costau adennill gan y Cyngor ac i roi sicrwydd fod gweithdrefnau wedi cytuno arnynt yn cael eu dilyn. Gofynnwyd yn rheolaidd i'r gwasanaeth Strydwedd a Chludiant i roi sylw i ddamweiniau traffig ac achosion eraill i glirio gweddillion neu drwsio'r cerbyttfordd pan fydd damweiniau neu achosion yn digwydd ar y rhwydwaith priffyrdd. Ar yr achosion hynny mae'r tîm rhwydwaith priffyrdd yn edrych i gofnodi costau ac i adnabod y rheiny sydd yn gyfrifol am achosion drwy weithio gyda Heddlu Gogledd Cymru ac Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau (DVLA) er mwyn ceisio adennill costau gan yr unigolion neu eu hyswirwyr.

Mae'r maes gwasanaeth wedi gofyn am archwiliad mewnol diweddar o'r prosesau sydd yn eu lle fel rhan o'r rhaglen archwiliad mewnol rhestredig. Cynhaliwyd yr archwiliad yn Hydref 2019 a nodwyd bod y gweithdrefnau ysgrifenedig yn eu lle yn dderbyniol ac yn ymdrin â'r prosesau ar gyfer adennill costau ar gyfer gwaith ailgodi tâl. Fodd bynnag, dyma'r archwiliad mewnol yn nodi nad oedd y rhain yn cael eu dilyn yn gyson ac roedd anghywirdeb yn amlwg yn y wybodaeth wedi'i gofnodi yn erbyn yr hawliau a gynhelir. Mae gwaith sylweddol wedi cael ei wneud gan y maes gwasanaeth ers yr adroddiad archwiliad i adfywio'r broses ac ymateb i'r meysydd wedi'u hadnabod ar gyfer gwelliant, a oedd wedi'u manylu yn yr adroddiad.

Cynghorodd y Rheolwr Rhwydwaith Priffyrdd bod y maes gwasanaeth ar hyn o bryd ddim yn dilyn i fyny ar adennill costau ar gyfer achosion sydd yn cynnwys marwolaethau oherwydd sensitifrwydd gweithred o'r fath. Cost yr achosion yn aml yn uchel a gallai ffyrdd aros ar gau am nifer o oriau i alluogi'r Heddlu i archwilio'r achos. Gofynnodd i'r Pwyllgor i ystyried p'un ai y teimlwyd y dylid ystyried adennill y costau hyn yn y dyfodol.

Gofynnodd y Cynghorydd David Evans os oedd y Cyngor yn llwyddiannus mewn adennill y costau llawn gan gwmnïau yswiriant a hefyd os oedd y cyfraddau tâl gan gwmnïau yswiriant yn cyd-fynd ag awdurdodau cyfagos. Eglurodd y Rheolwr Rhwydwaith Priffyrdd fod cwmnïau yswiriant yn aml yn trafod y costau i'w dyrannu a hefyd yn herio bywyd ased oedd wedi'i ddifrodi. Mewn rhai achosion roedd yn hanfodol i ddileu'r ddyled a byddai'r rhaid i'r Rheolwr Cyllid Corfforaethol gytuno i wneud hynny fel y Swyddog Adran 151. Mae'r Awdurdod Priffyrdd yn Lloegr wedi treialu cyfradd sefydlog o dâl ar draws yr awdurdodau lleol ond cefnwyd ar hynny oherwydd diffyg cytuno ar y cyfraddau sefydlog.

Mewn ymateb i gwestiynau gan y Cynghorwyr Paul Shotton ac Owen Thomas ynghylch yr archwiliadau ar y rhwydwaith priffyrdd a'r anawsterau yn adennill costau o achosion lle mae cerbydau wedi difrodi gwrychoedd, fe eglurodd y Rheolwr Rhwydwaith Priffyrdd y broses ar gyfer archwilio'r rhwydwaith priffyrdd yn dilyn y gwaith wedi'i wneud gan y cwmnïau cyfleustodau. Fe eglurodd hefyd nad oedd yn bosib i'r Cyngor rannu gwybodaeth wedi'i dderbyn trwy'r DVLA gydag unrhyw un arall, ond fe gytunodd i siarad â'r Cynghorydd Thomas wedi'r cyfarfod am achos oedd wedi digwydd yn ei ward.

Dywedodd y Cynghorydd Chris Dolphin am y costau sydd ddim yn cael eu hadennill wedi marwolaeth ac fe awgrymodd y dylid ystyried adennill costau yn y dyfodol ar sail achos i achos.

Cynigodd y Cynghorydd Chris Dolphin yr argymhellion wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad, ynghyd â'r argymhelliad ychwanegol dilynol, gyda'r Cynghorydd Joe Johnson yn eilio:-

- Bod adennill costau ar gyfer achosion sydd yn cynnwys marwolaethau yn cael eu hystyried ar sail achos i achos.

PENDERFYNWYD:

- (a) Bod y Pwyllgor yn nodi ac yn cefnogi'r broses o adennill costau ar gyfer trwsio yn dilyn difrod i rwydwaith priffyrdd; a
- (b) Bod adennill costau ar gyfer achosion sydd yn cynnwys marwolaethau yn cael eu hystyried ar sail achos i achos.

65. STORFEYDD DEPO ALLTAMI

Cyflwynodd y Rheolwr Darparu Gwasanaeth adroddiad i roi sicrwydd ynghylch rheolaeth ar gyfer storfeydd yn nepo Alltami. Mae storfeydd depo Alltami yn gyfrifol am storio holl eitemau stoc a deunyddiau a ddefnyddir yn y depo yn ddiogel a saff, yn ogystal â sicrhau fod yr holl beiriannau ac offer y mae'r gwasanaeth yn ei defnyddio yn cael ei gweithredu, archwilio a'i gwasanaethu yn unol ag amserlenni wedi'u cynllunio a gofynion cyfreithiol.

Cyflawnwyd archwiliadau mewnol o'r storfeydd depo yng Ngorffennaf 2016 gydag archwiliad dilynol ym Mai 2019. Y darganfyddiadau cyffredinol o'r archwiliadau oedd bod y rheolaeth a weithredwyd ar yr amser hynny yn rhoi rhyw sicrwydd bod y risgiau allweddol yn cael eu rheoli yn effeithiol ond bod mwy y gellir ei wneud. Adroddodd y rheolwr Darparu Gwasanaeth ar y system storfeydd newydd yn ei le, fel y manylir yn yr adroddiad yn egluro bod tîm prosiect darparu yn cael ei sefydlu i fonitro'r gwaith o ddarparu'r system, a byddai'n cael ei adrodd arno yn fisol yng nghyfarfodydd yr Uwch Dîm Rheoli.

Wrth ymateb i gais gan y Cadeirydd, fe ddywedodd y Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant) bod copi o'r adroddiad archwiliad ar gael i Aelodau o'r Pwyllgor. Fe gynghorodd hefyd bod canmoliaeth wedi bod i'r gwasanaeth ar y lefel o wybodaeth a ddarparwyd yn ystod archwiliad iechyd a diogelwch yn ddiweddar.

Dyma'r Cynghorydd Mike Peers yn diolch i'r swyddogion am yr adroddiad. Tynnodd sylw at yr eitemau stoc a'r deunyddiau darfodedig wedi'u storio yn y depo a gofynnodd p'un ai fyddai'r gwasanaeth yn adennill y costau'n llawn ar unrhyw eitemau a fyddai'n cael eu hanfon i'r arwerthwr a p'un ai fyddai'r arian a wneir yn cael ei roi yn ôl i'r gwasanaeth. Mynegodd ei bryderon am y diffyg systemau yn eu lle er mwyn dychwelyd eitemau stoc heb eu defnyddio ac fe ofynnodd pam ei bod wedi cymryd 3 mlynedd i gael archwiliad dilynol. Gofynnodd beth oedd y gost i'r gwasanaeth o ran staff asiantaeth ddim yn dychwelyd dillad priodol ar ddiwedd eu cyflogaeth ac fe fynegodd ei bryder ar yr ysgolion faniau oedd wedi eu prynu yn y gorffennol gan yr Adran Dai a'i storio yn y depo gan ofyn a oedd yn dyblygu mewn costau os nad oedden wedi cael eu symud am nifer o flynyddoedd.

Ymatebodd y Rheolwr Darparu Gwasanaeth drwy ddweud bod stoc ddarfodedig fel hen lusernau a rhwystrau diogelwch ddim yn gallu cael eu defnyddio yn rhywle arall, roedden nhw wedi mynd i'r arwerthiant a byddai costau llawn ar yr eitemau yn cael eu hadennill. Roedd yr arian yn mynd yn ôl i'r gwasanaeth strydwedd. Nid oedd yn ymwybodol o'r rheswm pam fod yr archwiliad dilynol wedi cymryd 3 blynedd i'w wneud ond byddai'n gallu tynnu eu sylw nhw at hynny ar ôl y cyfarfod. Mewn perthynas â'r gost o ddillad heb eu dychwelyd fe eglurodd y Rheolwr Darparu Gwasanaeth fod y gost heb gael ei ystyried fel rhan o'r archwiliad.

Mewn ymateb i awgrym gan y Cynghorydd Peers, fe gytunodd y Prif Swyddog i ddarparu adroddiad yn diweddar i'r Pwyllgor mewn chwe mis er mwyn rhoi sicrwydd fod y trefniadau gwaith a'r prosesau newydd yn cael eu dilyn yn gywir.

Wrth ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Chris Dolphin, fe gynghorodd y Rheolwr Darparu Gwasanaeth ei fod yn rhwymedigaeth statudol i ddarparu cyfarpar diogelu personol a dillad priodol i'r holl weithwyr cyflogedig.

Rhoddodd y Cynghorydd Owen Thomas ei safbwyntiau ar y lefel o stoc a nwyddau ar gerbydau'r Cyngor a ellir eu targedu. Eglurodd y Rheolwr Darparu Gwasanaeth bod cerbydau'r Cyngor yn aros yn y depo dros nos a bod yna ddim stoc na nwyddau yn cael eu gadael yn y cerbydau.

Cynigodd y Cynghorydd Paul Shotton yr argymhelliad wedi'i amlinellu yn yr adroddiad gyda'r Cynghorydd David Evans yn eilio.

PENDERFYNWYD:

Bod y trefniadau gwaith o fewn storfeydd depo Strydwedd a Chludiant, a chamau gweithredu i reoli deunyddiau ac offer sy'n cael eu cadw yn y storfeydd yn cael eu cefnogi.

66. AELODAU'R WASG A'R CYHOEDD YN Y CYFARFOD

Nid oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd na'r wasg yn bresennol.

(Cychwynnodd y cyfarfod am 2.00pm a daeth i ben am 4.29pm)

Y Cadeirydd